



LLEOLIAD YN Y PARC

Telerau ac amodau

A fyddech cystal â darllen yr amodau a thelerau canlynol cyn i chi gadarnhau eich archeb

Oriau agor

Bydd y cyfleusterau fel arfer ar gael rhwng 09.00 a 16.30, ddydd Llun i ddydd Sul. Mae trefniadau'r sesiynau archebu fel a ganlyn:

- Hanner diwrnod - 3.5 awr rhwng 09.00 a 12.30 neu rhwng 13.00 a 16.30. Codir tâl am ddiwrnod llawn ar gyfer unrhyw archebion sy'n pontio'r cyfnodau hyn, e.e 10.30 – 14.00
- Diwrnod llawn – cyfnod o 7 awr rhwng 09.00 – 16.30.
- Gellir codi tâl ychwanegol ar archebion sy'n gofyn am fynediad i'r adeilad cyn 09.00 o'r gloch, ddydd Llun i ddydd Sul.

Amodau archebu

Ystyir mai'r sefydliad (neu unigolyn os nad yw'r archeb ar ran sefydliad) y gwnaethpwyd yr archeb yn ei enw, oni nodir yn wahanol, fydd y Llogwr a thrwy gadarnhau'r archeb gyda Groundwork Gogledd Cymru bydd yn cytuno i'r telerau ac amodau a nodir yma.

- Mae'n ofynnol i gleientiaid newydd ddarparu llythyr awdurdodi ar bapur pennawd eu sefydliad, yn cynnwys rhif cofrestru TAW a/neu rif elusen. Ni allwn godi cyfraddau elusen os na ddarperir y rhif elusen yn y dull hwn.
- Bydd yn ofynnol i Logwyr Preifat (unigolion) ddarparu ffotograff o'u hunain a phrawf o'u cyfeiriad. Cedwir yr wybodaeth hon tan ddiwedd y digwyddiad a hyd nes derbynnir pob taliad sy'n weddill, yn dilyn hyn bydd pob dogfen yn cael ei dinistrio a'i gwaredu'n ddiogel.

A fyddech cystal ag anfon eich ffurflen archeb i'r cyfeiriad hwn:

venueinthepark@groundworknorthwales.org.uk

Trwy lofnodi'r contract hwn rydych yn derbyn y telerau a'r amodau hyn.

Mae Groundwork Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i amrywio ei brisiau heb rybudd. Bydd unrhyw brisiau yn ymwneud ag archebion a gafodd eu cadarnhau a'u rhoi yn ysgrifenedig yn dal i fod yn ddilys.

Archebion Dros Dro

Bydd archebion dros dro yn cael eu nodi ar y dyddiadur a'u cadw am ddim am bythefnos. Yn ystod y cyfnod hwn os bydd eraill yn dangos diddordeb yn yr ystafell rydym yn ei chadw ar eich cyfer, byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau neu ddiddymu eich archeb. Bydd y Llogwr yn derbyn e-bost gan Groundwork Gogledd Cymru a chofnod archeb dros dro,

ffurflen archeb, ein telerau ac amodau, costau llogi'r ystafell a manylion arlwygo. Ar ôl hyn mae'n ofynnol i ni dderbyn cadarnhad ysgrifenedig er mwyn sicrhau'r archeb. Os na dderbynnir cadarnhad bydd yr archeb yn cael ei dileu o'r dyddiadur yn awtomatig.

Dylid nodi holl ofynion y Llogwr ar y ffurflen archeb wrth archebu. Mae'n rhaid i'r Llogwr roi gwybod yn ysgrifenedig i Groundwork Gogledd Cymru am unrhyw newidiadau i'r gofynion a nodir ar y ffurflen archeb, cyn pen wythnos cyn y digwyddiad.

Cadarnhau'r Archeb

Ar ôl i'r Llogwr ddychwelyd fersiwn wedi'i lofnodi o'r contract bydd y polisi canslo yn gymwys. Yn achos archebion ar gyfer dyddiadau cyn pen tri mis, mae'n ofynnol cyflwyno copi wedi'i lofnodi o'r contract cyn pen saith diwrnod gwaith. Yn achos archebion ar gyfer dyddiadau cyn pen saith diwrnod, mae'n ofynnol cyflwyno copi wedi'i lofnodi o'r contract cyn pen 24 awr.

Canslo

Os bydd y Llogwr yn canslo archeb sydd wedi'i chadarnhau, bydd y costau canlynol yn gymwys:

- Llai na 3 mis o rybudd - 25% o gost llogi ystafell
- Llai na 2 fis o rybudd - 50% o gost llogi ystafell
- Llai na 1 mis o rybudd - 75% o gost llogi ystafell
- Llai na 2 wythnos o rybudd - 100% o gost llogi ystafell a chostau arlwygo.

Dylid rhoi gwybod am fwriad i ganslo yn ysgrifenedig a daw hyn i rym ar y dyddiad y derbynnir yr ohebiaeth gan Groundwork Gogledd Cymru.

Mae Groundwork Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ganslo'r archeb os ystyrir bod cynnal y digwyddiad yn gwrthdaro â buddiannau Groundwork Gogledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam neu eu staff, neu o bosibl yn niweidiol i'w busnes. Os bydd Groundwork Gogledd Cymru yn ystyried nad yw cleient wedi datgelu manylion llawn/dal gwybodaeth yn ôl am y digwyddiad a'i gynnwys am unrhyw reswm, yna mae Groundwork Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ganslo'r archeb heb gost nac atebolrwydd.

Mynediad ymlaen llaw i'r ystafelloedd

Ar ddisgresiwn Groundwork Gogledd Cymru, gellir caniatáu i'r Llogwr, contractwyr neu noddwyr y trefnydd, gael mynediad ymlaen llaw i ystafell. Fodd bynnag ystyrir bod y cyfnod llogi wedi dechrau ar yr adeg pan roddwyd mynediad i'r ystafell ac felly gellir codi tâl am hyn. Codir tâl ar sail *pro rata* sef tâl am logi hanner diwrnod a chodir tâl am yr awr gyfan os defnyddiwyd rhan ohoni.

Gadael ystafelloedd yn hwyr

Os na fydd y Llogwr, eu cynadledwyr neu gontractwr yn gadael yr ystafell ar ddiwedd y cyfnod llogi, yn cynnwys methiant i symud unrhyw eitemau a gariwyd i mewn ar gyfer y digwyddiad, ac eithrio os gwnaed trefniant ymlaen llaw, codir tâl ychwanegol am logi'r ystafell, i gynnwys unrhyw gostau ychwanegol am logi'r ystafell a chostau staffio.



Blaendaliadau a thaliadau

Mae Groundwork Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i godi pris llawn ar yr Llogwr am archeb ymlaen llaw neu godi blaendal o 50% ychwanegol cyn llogi'r ystafelloedd cyfarfod. Bydd yn ofynnol i bob cleient newydd dalu blaendal o 50% o leiaf ar adeg llofnodi'r contract.

Bydd anfoneb yn cael ei hanfon ar gyfer gweddill yr arian sy'n ddyledus dair wythnos cyn y digwyddiad. Rhaid derbyn taliad ar gyfer pob anfoneb cyn pen 7 diwrnod ar ôl dyddiad yr anfoneb. Ychwanegir TAW i bob taliad ar y gyfradd gyfredol.

Gwasanaeth Arlwy

Darperir ein gwasanaeth arlwy ar y safle gan Caffi Cyfle. Ni chaniateir i gleientiaid ddod â'u bwyd a'u diod eu hunain i'w bwyta ac yfed ar y safle.

- Mae prisiau'r fwydlen fesul uned heb gynnwys TAW, a gaiff ei ychwanegu yn ddiweddarach.
- Cedwir yr hawl i newid y tariff hwn heb rybudd, ac eithrio yn achos archebion wedi'u cadarnhau lle cafodd prisiau eu cadarnhau yn ysgrifenedig. Mae'n bosibl y bydd y tariff yn amrywio yn dymhorol hefyd am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth.
- Rhaid anfon archebion terfynol ysgrifenedig at y tîm Archebion 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad.
- Os bydd archebion arlwy yn cael eu canslo o fewn 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad codir tâl llawn am yr holl eitemau.
- Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn nodi na ddylai bwyd gael ei gadw y tu allan i'r oergell am gyfnod hirach na 2 awr. Felly bydd bwyd yn cael ei symud o'r ystafell cyn y daw'r cyfnod amser hwn i ben. Oherwydd y rheoliadau hyn, ni chaniateir symud bwyd oddi ar y safle o dan unrhyw amgylchiadau.
- Byddwn yn trafod uchafswm ac isafswm niferoedd gyda chi ymlaen llaw a nodir hyn yn glir ar y ffurflen archeb.

Bwydlenni Eraill

Awgrymiadau yn unig yw'r bwydlenni a restrir. Os oes gennych gais penodol neu anghenion deietegol a fyddoch chi'n drafod eich gofynion gyda'r cogydd. Gellir paratoi bwydlenni arbennig a 'bwyta mewn steil' yn unol â'ch anghenion.

Arddangosfeydd a deunyddiau arddangos

Mae'n ofynnol i bawb sy'n llogi'r ganolfan gynadledda ar gyfer arddangosfeydd neu sy'n dod â deunyddiau arddangos i'r ganolfan ar gyfer eu cynhadledd neu gyfarfod roi gwybod i staff y ganolfan gynadledda beth maent am ddod gyda nhw o leiaf wythnos cyn dyddiad y digwyddiad. Rhaid i'r llogwyr sicrhau nad yw allanfeydd tân yn cael eu rhwystro, a bod llwybrau dianc yn cael eu cadw'n glir i roi mynediad i'r allanfeydd.



- Mae Groundwork Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i dynnu unrhyw ddeunyddiau a allai gael eu hystyried yn sarhaus neu sy'n cael eu gosod mewn man sy'n debygol o achosi problemau o ran iechyd a diogelwch.
- Gall deunyddiau o'r fath gael eu danfon i'r safle ar y diwrnod cyn y digwyddiad yn unig a rhaid eu symud oddi yno ar unwaith ar ddiwedd y digwyddiad. Nid yw Groundwork Gogledd Cymru yn atebol am unrhyw ddeunyddiau sy'n cael eu gadael ar gyfer eu casglu neu eu danfon oni bai fod staff Groundwork Gogledd Cymru wedi llofnodi ar eu cyfer. Rhaid i'r holl nwyddau a ddanfonir gael labeli clir yn dangos y cyfeiriadau.
- Cyfrifoldeb y llogwr yw gosod a darparu deunyddiau arddangos.

Mynediad i Gerbydau

Nid yw'r telerau ac amodau hyn yn rhoi unrhyw hawl i'r llogwr ddod â cherbyd at yr eiddo neu barcio cerbydau ar yr eiddo. Rhaid rhoi gwybod i staff Groundwork Gogledd Cymru am unrhyw ofynion penodol o ran mynediad, a gallant drefnu hyn ymlaen llaw cyn cadarnhau'r archeb. Mae lle parcio cyhoeddus ar gael ar y safle ac mae'n cael ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Iechyd a Diogelwch

- Y Llogwr sy'n gyfrifol am iechyd a Diogelwch ei staff a'r cynadleddwyr yn ystod y cyfnod llogi, a disgwylir iddynt gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.
- Mae gwybodaeth am drefniadau argyfwng, trefniadau ymarferol a Chymorth Cyntaf ar gael ym mhecyn archebu'r llogwr a gan y staff ar y safle.
- Bydd manylion ynghylch capasiti yr ystafelloedd yn cael eu nodi wrth logi'r cyfleusterau ac ni chaniateir mwy na'r niferoedd hyn am resymau diogelwch.
- Mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i newid gosodiadau'r ystafell er mwyn cydymffurfio â rheoliadau tân ac i wrthod mynediad i ystafelloedd os ydynt yn debygol o fod yn orlawn.
- Rhaid sicrhau bod rhestr o'r cynadleddwyr ar gael ar y diwrnod rhag ofn bydd yn rhaid i bobl adael yr adeilad mewn argyfwng.

Defnyddio'r ardal y tu allan

Mae diogelwch ymwelwyr y parc yn hollbwysig drwy'r amser, dylai llogwyr nodi bod afonydd, pyllau, arwynebau anwastad a pheryglon naturiol yn y parc. Gall llogwyr ddefnyddio'r lle cyn gwyrdd sydd y tu ôl i'r ystafell gynadledda yn ystod sesiynau egwyl, ac mae croeso iddynt fwynhau cerdded o amgylch y parc yn ystod sesiynau egwyl, ac ati. Fodd bynnag, rhaid gofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynnal unrhyw ddigwyddiad wedi'i gynllunio sy'n cynnwys defnyddio'r parc ehangach neu osod offer yn yr ardal hon neu unrhyw le arall yn y parc.

Digwyddiadau Awyr Agored



Os hoffech drefnu digwyddiad neu weithgaredd awyr agored yn Nyfroedd Alun, a fydddech cystal â chysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham ar 01978 763140 neu e-bostiwrch countryparks@wrexham.gov.uk

Cyfle Cyfartal

Bydd y llogwr yn sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, yn ymddwyn yn gwrtais ac yn parchu pawb ni waeth beth yw eu rhyw, crefydd, hil, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol.

Trefniadau Gadael yr Adeilad mewn Argyfwng ar gyfer Pobl ag Anableddau

Yn achos pob digwyddiad, dylid sicrhau bod gwybodaeth am bobl ag anableddau yn cael ei rhoi ymlaen llaw cyn iddynt fynychu cyfarfod neu ddigwyddiad.

Ar ôl cyrraedd, dylai'r trefnydd drafod gyda staff Groundwork Gogledd Cymru pa drefniadau maent wedi'u rhoi ar waith i helpu eu cynadledwr/wyr i adael y safle, a dylai'r trefniadau hyn gynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Canlyniadau trafodaeth gyda'r cynadledwr/wyr i gytuno ar Gynllun Personol ar gyfer Gadael Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) cyn y cyfarfod
- Dynodi cyfaill i'w helpu i adael yr adeilad os oes angen
- Dweud wrth staff Groundwork Gogledd Cymru beth yw trefniadau'r PEEP
- Os na fydd y trefnydd yn gwybod am anabledd cynadledwr nes iddo gyrraedd, rhaid cynnal trafodaeth cyn gynted â phosibl i gytuno ar drefniadau'r PEEP, a rhaid rhoi gwybod am hyn i staff Groundwork Gogledd Cymru.

Diogelwch

Mae Groundwork Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am brawf o hunaniaeth unrhyw un sy'n mynychu'r ystafelloedd cyfarfod ac i'w gwneud yn ofynnol i bawb sy'n mynychu ddangos bathodyn diogelwch. Gall staff Groundwork Gogledd Cymru wrthod mynediad i'r adeilad os ydynt yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

Gellir archwilio neu agor pob eitem, cynhwysydd ac offer. Ni fydd Groundwork Gogledd Cymru yn derbyn nwyddau a ddanfonir i'r safle ar gyfer digwyddiad oni bai fod y Llogwr wedi trefnu hyn ymlaen llaw.

Yswiriant ac Atebolrwydd

Ni fydd Groundwork Gogledd Cymru yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo a gariwyd i mewn i'r safle gan y Llogwr; y Llogwr fydd yn gyfrifol am unrhyw eiddo o'r fath, ac unrhyw yswiriant sy'n gysylltiedig â'r eiddo, drwy gydol y cyfnod llogi.

Hefyd, ni fydd Groundwork Gogledd Cymru yn gyfrifol am unrhyw anaf y gellir ei achosi gan unrhyw unigolyn yn ystod digwyddiad sy'n deillio o weithredoedd unrhyw unigolyn y tu hwnt i'w reolaeth neu sy'n deillio o fethiant i gydymffurfio â rheolau a nodwyd gan y ganolfan gynadledda.

Hefyd, ni fydd Groundwork Gogledd Cymru yn gyfrifol am unrhyw golled oherwydd methiant peirianyddol, methiant yn y cyflenwad trydan, llifogydd, tân, cyfyngiad gan y



Ilywodraeth, gweithredu diwydiannol, yr angen i wneud gwaith trwsio brys yn y Ganolfan neu waith Duw a all achosi i'r safle gael ei gau dros dro neu sy'n amharu ar y digwyddiad.

Cotiau ac eiddo personol

Nid yw Groundwork Gogledd Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am eiddo cwsmeriaid neu westeion. Darperir rhesel gotiau ar gyfer gwesteion ond bydd unrhyw eitemau personol sy'n dod i mewn i'r ganolfan neu sy'n cael eu gadael yno ar gyfrifoldeb y perchennog a heb unrhyw atebolrwydd ar ran Groundwork Gogledd Cymru.

Polisi Ysmygu

Mae Groundwork Gogledd Cymru yn gweithredu polisi dim ysmygu ym mhob ystafell ac mae'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol y Llywodraeth.

Statws y Cytundeb hwn

Nid yw'r cytundeb hwn yn creu unrhyw bartneriaeth, asiantaeth, na pherthynas waith rhwng y llogwr a Groundwork Gogledd Cymru, na pherthynas landlord a thenant. Nid oes unrhyw ran o'r cytundeb hwn yn rhoi hawl i'r llogwr feddiannu'r eiddo neu unrhyw ran ohono ac ni chaniateir i chi fynd i mewn i unrhyw ran o'r eiddo ac eithrio'r ardal a ganiateir.

Aseiniad

Ni chaiff y Llogwr aseinio, is-gontractio neu drosglwyddo unrhyw un o'i hawliau neu rwymedigaethau o dan y cytundeb hwn.

Derbyn yr Amodau Llogi

Trwy hyn, rwyf yn cytuno i'r telerau ac amodau uchod:

Printiwch eich Enw: _____

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

✉ venueinthepark@groundworknorthwales.org.uk

☎ 01978 269564

